sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

# Diwygiedig 2018-2033
## Cynllun Datblygu Lleol

# Datganiad Sefyllfa Drafft
## Cydweithio Rhanbarthol



Ebrill 2024

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** .... 2

**2. Cydymffurfiaeth â Cymru'r Dyfodol** .... 3

**3. Y Cyd-destun Strategol** .... 3

**4. Datganiadau Sefyllfa'r CDLl a Themâu Strategol Allweddol** .... 6

- **Cyngor Sir Caerfyrddin** .... 6
- **Cyngor Castell-nedd Port Talbot** .... 8
- **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro** .... 9
- **Cyngor Sir Penfro** .... 10
- **Cyngor Abertawe** .... 13

**5. Themâu Rhanbarthol** .... 14

- **Daearyddiaeth Strategol a Maint a Lleoliad Twf** .... 15
- **Tai** .... 18
- **Twf Economaidd** .... 22
- **Yr Argyfwng Hinsawdd a Datgarboneiddio** .... 23
- **Rheoli Adnoddau Naturiol** .... 24
- **Perygl Llifogydd** .... 27

**6. Llywodraethu** .... 28

**7. Amlinelliad o'r egwyddorion cytunedig a'r Camau Nesaf** .... 29

**Llofnodwyr Allweddol** .... 31

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Papur Sefyllfa hwn yn rhoi trosolwg o faterion cynllunio strategol trawsffiniol ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru. Fe'i lluniwyd gan yr awdurdodau cynllunio lleol o fewn y rhanbarth i ddangos y modd y mae eu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) priodol sy'n cael eu hadolygu, yn cael eu paratoi, o ran sicrhau dealltwriaeth gytunedig o'r materion a'r gofynion yn rhanbarth De-orllewin Cymru fel y'i diffinnir yn Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Bydd hefyd yn rhoi amlinelliad o gydweithio mewn perthynas â chasglu tystiolaeth o ran llywio'r gwaith o baratoi'r CDLlau newydd ond hefyd y Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS) a fydd yn cael eu paratoi dan adain Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

1.2 Mae'r awdurdodau lleol sy'n rhan uniongyrchol o'r Datganiad hwn fel a ganlyn:

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Abertawe

1.3 Paratowyd y datganiad hwn i gefnogi'r CDLlau newydd hynny sy'n cael eu datblygu gan yr awdurdodau cyfansoddol ledled y rhanbarth, ac o ganlyniad mae'n adlewyrchu camau gwahanol yn y broses o baratoi Cynllun. O ystyried y gwahanol gamau o'r broses llunio cynllun y mae'r awdurdodau cyfansoddol wedi'u cyrraedd, nid yw'r data ar gyfer y papur hwn wedi bod ar gael ar gyfer pob awdurdod cynllunio. Fodd bynnag, bydd diweddariadau ac amrywiadau i'r Papur Sefyllfa hwn yn y dyfodol yn cael eu paratoi fel y bo'n briodol mewn perthynas â chynnydd y priod Gynlluniau ac unrhyw waith datblygu sy'n ymwneud â Chynllun Datblygu Strategol y rhanbarth.

1.4 Mae'n cynnwys datganiad sefyllfa ar gyfer pob awdurdod o ran paratoi eu CDLl newydd, ynghyd ag amlinelliad o unrhyw waith cydweithredol tystiolaethol allweddol a gyflawnwyd. Mae hefyd yn nodi materion strategol cytunedig a, lle mae'r llofnodwyr yn gytûn, nodir hynny yn yr adrannau a ganlyn, ynghyd â dolenni i'r sylfaen dystiolaeth a ddatblygwyd.

## 2. Cydymffurfiaeth â Cymru'r Dyfodol

2.1 Mae'r Papur hwn yn adlewyrchu'r gofyniad i CDLlau gydymffurfio â darpariaethau Cymru'r Dyfodol fel y'u nodir o dan Adran 7(1) o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, adran mewnosodiadau 62(3A) yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (PCPA) 2004, ac fel y nodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu rhifyn 3 (2020).

2.2 Lle caiff Cynllun Datblygu Strategol ei fabwysiadu, bydd yn ofynnol i'r ACLlau cyfansoddol baratoi CDLl Cryno (CDLlC), sy'n 'Cydymffurfio'n Gyffredinol' â'r Cynllun Datblygu Strategol a Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Lle nad oes Cynllun Datblygu Strategol mabwysiedig mae'n ofynnol i'r awdurdodau cyfansoddol baratoi CDLl ar gyfer ardal eu cynllun. O ran Cymru'r Dyfodol, nodir mai Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod sy'n llunio'r cynllun, a bydd yn rhoi sylwadau ar faterion cydymffurfedd cyffredinol ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol.

2.3 Yn yr ardaloedd hynny lle nad oes Cynllun Datblygu Strategol, bydd yn rhoi sylwadau ar faterion cydymffurfedd cyffredinol ar gyfer CDLlau.

## 3. Y Cyd-destun Strategol

3.1 Mae'r Papur hwn yn cwmpasu Rhanbarth y De-orllewin fel y'i diffinnir gan ardal weinyddol y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac fel y nodir yn Cymru'r Dyfodol. Ffurfiwyd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, a gyfansoddwyd yn ffurfiol ym mis Ionawr 2022, trwy ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Abertawe, yn ogystal ag o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae gan y Pwyllgor rôl strategol ganolog yn y rhanbarth o ran gwella prosesau rhanbarthol sy'n ymwneud â chynllunio, cydgysylltu a darparu cludiant, cynllunio defnydd tir, datblygu economaidd ac ynni, ac mae'n adlewyrchu'r ffocws ehangach ar waith rhanbarthol a chydweithio ledled rhanbarth amrywiol sy'n cynnwys ardaloedd gwledig helaeth ac ardaloedd trefol y mae pob un ohonynt wedi'u lleoli yn rhai o amgylcheddau naturiol ac adeiledig pwysicaf Cymru, ac o'u cwmpas.

3.2 Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru wedi cyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2023-2028, gan nodi ei Amcanion Llesiant. Cyfeirir at lunio Cynllun Datblygu Strategol a Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer y rhanbarth, a nodir Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru. O safbwynt llywodraethu, nodir bod Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru wedi sefydlu Is-bwyllgor Cynllunio Strategol.

3.3 Mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod bod ystod o faterion strategol ledled y rhanbarth, y mae i lawer ohonynt ddimensiynau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a bydd angen eu cyflawni trwy ddull cydgysylltiedig.

Yn hyn o beth, mae'n nodi y dylid cydgysylltu a chynllunio seilwaith tai, twf economaidd, a chysylltedd digidol a chludiant yn seiliedig ar y rhanbarth cyfan. Dylai prosesau rheoli adnoddau naturiol, llifogydd, a diogelu a gwella ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol a'r dirwedd lywio penderfyniadau strategol ynghylch lleoliadau ar gyfer twf a seilwaith newydd. Dylai datgarboneiddio cymdeithas ac ymateb i fygythiadau'r argyfwng hinsawdd fod yn ganolog i bob achos o gynllunio rhanbarthol.

3.4 Mae Cymru'r Dyfodol yn datgan y dylid gwneud penderfyniadau clir ynghylch maint a lleoliad twf ar draws y rhanbarth, a hynny trwy baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol i sicrhau bod pob rhan o'r rhanbarth yn cydweithio i gyflawni nodau'r rhanbarth. Bydd angen i'r Cynllun Datblygu Strategol ganolbwyntio ar symud pobl ar draws y rhanbarth a chefnogi dull integredig o ddefnyddio tir strategol a chynllunio trafnidiaeth. Bydd angen i benderfyniadau lleoliadol allweddol, gan gynnwys ar gyfer canolfannau cyflogaeth, twf tai strategol a gwasanaethau strategol, ganolbwyntio ar y lleoliadau mwyaf cynaliadwy a hygyrch ar draws y rhanbarth, ynghyd â mynd i'r afael â thagfeydd, lleihau cymudo mewn ceir a gwella ansawdd aer.

3.5 Mae Polisi 19 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynlluniau Datblygu Strategol ymgorffori'r gwaith o greu lleoedd fel egwyddor drosfwaol a sefydlu ar gyfer y rhanbarth (a'r CDLlau cyfansoddol lle bo angen): strategaeth ofodol; hierarchaeth aneddiadau; y ddarpariaeth a'r gofyniad o ran tai; anghenion sipsiwn a theithiwr; y ddarpariaeth cyflogaeth; yr ardaloedd gofodol ar gyfer tai strategol, twf cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy; nodi lleiniau glas, coridorau gwyrdd a thirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol lle bo angen; lleoliad gwasanaethau allweddol, trafnidiaeth a seilwaith cysylltedd; fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol ac asedau diwylliannol mewn modd cynaliadwy; rhwydweithiau ecolegol a chyfleoedd ar gyfer diogelu neu wella cysylltedd y rhwydweithiau hyn a darparu seilwaith gwyrdd; a fframwaith cydgysylltiedig ar gyfer echdynnu mwynau a'r economi gylchol, gan gynnwys trin a gwaredu gwastraff.

3.6 Yn absenoldeb Cynllun Datblygu Strategol, mae Cymru'r Dyfodol yn darparu'r fframwaith rhanbarthol ar gyfer nodi materion gofodol strategol allweddol sy'n gofyn am ymateb sy'n cynnwys mwy na pholisi lleol. Yn absenoldeb Cynlluniau Datblygu Strategol, mae Cymru'r Dyfodol yn dweud y bydd angen i CDLlau ddangos sut mae polisïau rhanbarthol Cymru'r Dyfodol wedi cael eu hystyried a dangos sut maent yn cydymffurfio â gofynion Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru.

3.7 Mae Cymru'r Dyfodol yn datgan ei bod yn bwysig bod 'Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn ystyried y gydberthynas rhwng tai strategol, trafnidiaeth a thwf economaidd, a'r Gymraeg. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gynnwys hierarchaethau aneddiadau a pholisïau dosbarthu twf sy'n creu'r amodau i'r Gymraeg ffynnu a pharhau i fod yn iaith gymunedol.' Mae Cymru'r Dyfodol yn adlewyrchu pwysigrwydd y Gymraeg yn y rhanbarth gyda Chyfrifiad 2021 yn nodi bod gan Sir Gaerfyrddin yr ail nifer uchaf o bobl 3 oed neu hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg (72,838) yng Nghymru.

3.8 Mae Polisi 28 yn Cymru'r Dyfodol yn nodi Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli (NGA) gan ddatgan mai dyma fydd y prif ganolbwynt ar gyfer twf a buddsoddiad yn Rhanbarth y De-orllewin. Mae'n ofynnol i Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol gydnabod yr Ardal Dwf Genedlaethol fel y

canolbwynt ar gyfer twf economaidd strategol a thai; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; gweithgynhyrchu uwch; seilwaith trafnidiaeth a seilwaith digidol. Mae'r testun ategol yn nodi:

- Yn unol â pholisi 19, wrth baratoi Cynllun Datblygu Strategol mae'n rhaid sicrhau bod y rhanbarth yn rheoli twf mewn modd trefnus a chydlynol i gefnogi anghenion yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol a'r rhanbarth ehangach. Dylai penderfyniadau strategol ynghylch lleoliad gwasanaethau a seilwaith allweddol gefnogi'r aneddiadau presennol a chael eu gwneud yn rhanbarthol, gan sicrhau eu bod yn y lleoliadau mwyaf hygyrch a chynaliadwy, eu bod yn cefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac amddifadedd a'u bod yn gwella cysylltiadau â rhanbarthau cyfagos.
- Mae Polisi 7 yn nodi'r dull strategol cenedlaethol o ddarparu tai fforddiadwy ac mae'n sicrhau bod polisïau tai a chyllid yn canolbwyntio ar ysgogi mwy o ddarpariaeth. Mae cynllunio a chydlynu'r gwaith o ddarparu tai newydd i ddiwallu anghenion a nodwyd yn dasg bwysig ar gyfer y broses gynllunio ranbarthol. O dan amcangyfrifon canolog Llywodraeth Cymru mae angen 25,600 o dai ychwanegol yn y rhanbarth hyd nes 2039 a thros y pum mlynedd gychwynnol (2019-20 hyd nes 2023-24) dylai 44% o'r tai ychwanegol y mae eu hangen fod yn dai fforddiadwy. Mae'r amcangyfrifon hyn yn darparu rhan o'r dystiolaeth a'r cyd-destun y gellir seilio Gofynion Tai ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol arnynt a dylid eu hystyried ar y raddfa ranbarthol. Bydd deall a rheoli gwahanol bwysau o ran datblygu ar draws y rhanbarth yn fater allweddol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol. Rhaid ystyried materion tai strategol ar lefel ranbarthol ac nid ar sail yr awdurdodau cynllunio lleol unigol.

3.9 Mae Polisi 29 yn Cymru’r Dyfodol yn nodi bod Sir Gaerfyrddin a Threfi'r Daugleddau yn Ardal Dwf Ranbarthol (RGA), ac yn datgan bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf ac adfywio cynaliadwy yng Nghaerfyrddin a Threfi'r Daugleddau yn Sir Benfro (Hwlffordd, Aberdaugleddau, Penfro, a Doc Penfro). Canolbwyntir ar yr ardaloedd hyn ar gyfer twf a reolir, gan adlewyrchu eu swyddogaethau is-ranbarthol pwysig a'u cysylltiadau cryf ag Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol gydnabod rôl y lleoedd hyn fel canolbwynt ar gyfer tai, cyflogaeth, twristiaeth, trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau allweddol o fewn eu swyddogaeth barhaus fel canolbwyntiau ar gyfer twf is-ranbarthol. Mae'r testun ategol yn nodi'r canlynol:

- Bydd datblygiad ym Mae Abertawe a Llanelli yn cefnogi ein strategaeth dwf genedlaethol a bydd hyn yn cael ei ategu gan dwf ychwanegol yn nhref Caerfyrddin a threfi'r Daugleddau yn Sir Benfro drwy bolisi 1. Bydd twf cynaliadwy y lleoedd hyn yn cael ei gefnogi gan bolisïau 2, 3, 6 ac 8 a fydd yn sicrhau y lleolir datblygiadau mewn modd cynaliadwy a hygyrch sy'n sicrhau bod lleoedd da yn cael eu creu i gefnogi cymunedau lle bydd tir cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ddangos arferion gorau.
- Bydd polisïau 4 a 5 yn helpu i sicrhau bod ardaloedd gwledig yn y De-orllewin yn tyfu mewn modd priodol, gan gefnogi economïau a gwasanaethau gwledig. Yn unol â pholisi 4, mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai ar lefel ranbarthol a lleol yw'r ffordd orau o gynllunio dyfodol ardaloedd gwledig. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol yn cynllunio'n gadarnhaol ar gyfer cymunedau gwledig yn y rhanbarth ac yn ystyried y cydbwysedd y mae ei angen rhwng canolbwyntio

ar ddatblygu yn y prif ardaloedd trefol, adeiledig a'r ardaloedd gwledig. Bydd bylchau mewn cysylltedd digidol neu gysylltedd dyfeisiau symudol yn cael sylw drwy bolisïau 13 a 14 i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu gwella.

3.10 Mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod bod rhanbarth De-orllewin Cymru yn cefnogi diwydiant twristiaeth mawr ac amrywiol a bod y sector yn bwysig i economi'r rhanbarth, yn ogystal â bod y parciau cenedlaethol yn gaffaeliad mawr i'r rhanbarth sy'n denu ymwelwyr o bob cwr o'r byd. Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Datblygu Strategol ystyried y prif ardaloedd twristiaeth presennol a'r rhai newydd posibl, y math o ymwelwyr y maent yn eu denu a'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi twf.

3.11 Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Datblygu Strategol ddarparu fframwaith cadarnhaol i alluogi twf a sicrhau bod cymunedau ar draws pob rhan o'r rhanbarth yn gallu cael budd o'u tirweddau, eu hamgylchedd naturiol a hanesyddol, eu hasedau treftadaeth a'u hatyniadau ymwelwyr i dyfu eu heconomïau.

## 4. Datganiadau Sefyllfa'r CDLl a Themâu Strategol Allweddol

### Cyngor Sir Caerfyrddin

4.1 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, sydd wedi dechrau paratoi ei CDLl Diwygiedig newydd, wedi symud yn ei flaen i gyhoeddi ail fersiwn Adneuo'r Cynllun, a disgwylir ei gyflwyno ar ddechrau 2024.

4.2 Mae’r oedi wrth baratoi’r cynllun yn cael ei briodoli i effeithiau COVID a’r cyfyngiadau symud cysylltiedig yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd ar y gallu i gynnal sesiynau ymgynghori dynodedig mewn modd a oedd yn gyson â’r Cytundeb Cyflawni a gofynion rheoliadol. Roedd hefyd angen ailwerthuso a diweddaru'r sylfaen dystiolaeth, lle y bo'n briodol, i adlewyrchu'r effeithiau hyn.

4.3 Gellir priodoli'r oedi wrth baratoi'r cynllun yn uniongyrchol hefyd i gyhoeddi Canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar lefelau Ffosffad Afonol mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) gwarchodedig. Er nad mater sy'n gyfyngedig i Sir Gaerfyrddin yn unig yw hwn, cafodd y canllawiau effaith uniongyrchol ar allu'r ACLl i fwrw ymlaen â'r Cynllun, ac mae wedi gofyn am dystiolaeth ychwanegol sylweddol yn ogystal â gwaith pellach mewn perthynas â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

4.4 Bydd CDLl mabwysiedig presennol Sir Gaerfyrddin yn parhau mewn bodolaeth hyd nes y caiff ei ddisodli gan y Cynllun Diwygiedig.

**CDLl Diwygiedig Sir Gaerfyrddin – Themâu Strategol Allweddol**

**Y Strategaeth Ofodol a Dosbarthu Twf**

4.5 Mae'r CDLl Diwygiedig yn cydnabod yr amrywiaeth sy'n bodoli yn y Sir a'r angen i adlewyrchu hyn yn ei ddull strategol. Mae'r Strategaeth Ofodol yn nodi hierarchaeth aneddiadau ond yn ei gosod mewn fframwaith aneddiadau wedi'i grwpio o dan chwe chlwstwr. Bydd y clystyrau hyn, a dosbarthiad twf, yn canolbwyntio ar egwyddorion cynaliadwy, ond byddant hefyd yn cydnabod rôl, swyddogaeth a chyfraniad priodol pob anheddiad yn ei glwstwr. Mae'r Cynllun yn ceisio dosbarthu twf ledled yr hierarchaeth aneddiadau ond mewn modd sy'n adlewyrchu eu rhinweddau cynaliadwyedd priodol. Gan nodi cyd-destun gwledig y Sir, nodir hefyd rôl aneddiadau llai o ran sicrhau twf lleol a chynaliadwy.

4.6 Mae'r ardaloedd twf strategol yn adlewyrchu'r wedd drefol bresennol ar ffurf Llanelli a Rhydaman/Cross Hands, gan nodi eu perthynas â'r Ardal Dwf Genedlaethol ac o fod yn rhan ohoni,[1] a Chaerfyrddin sy'n cael ei chydnabod yn Ardal Dwf Ranbarthol yn Cymru'r Dyfodol. Mae hyn yn cydymffurfio â darpariaethau Cymru'r Dyfodol ac yn adlewyrchu eu priod rinweddau cynaliadwyedd a'u hysgogwyr economaidd cryf o safbwynt gofynion y farchnad a chyflenwi'r farchnad. Mae'r tair ardal dwf hyn wedi'u dynodi'n brif ganolfannau, ac er y byddant yn cael cyfran briodol o'r twf a ragwelir, bydd y dosbarthu'n digwydd mewn modd cytbwys.

4.7 Bydd ardaloedd eraill yn cynnwys ffocws ar Dwf Lleol ac Arallgyfeirio. Rhain yw'r ardaloedd lle mae twf yn adlewyrchu'r gymuned, gan ddeall y disgwyliadau ehangach hynny o ran cyflawni sy'n gysylltiedig â llunio Cynllun (e.e. polisi a chanllawiau cenedlaethol). Nid yn unig y mae ymgorffori ardaloedd mwy gwledig eu natur yn aml yn chwarae rhan annatod ym mywyd beunyddiol eu cymunedau, ond maent hefyd yn hanfodol i sicrhau Sir Gaerfyrddin fyrlymus a ffyniannus.

4.8 Mae adfywio a chreu swyddi yn elfennau pwysig ledled y Sir. Mae safleoedd a neilltuwyd a'r defnydd o bolisïau yn darparu fframwaith ar gyfer cynnig cyfleoedd gwaith a chyfleoedd ar gyfer creu swyddi. Mae hyn yn ceisio darparu ymagwedd gadarnhaol o ran helpu'r ardaloedd hyn i wireddu eu potensial yn llawn ac adeiladu ar y cyfleoedd yn holl gymunedau Sir Gaerfyrddin. Mae'r Strategaeth felly wedi'i gwreiddio'n gadarn yn ethos "Un Sir Gâr" fel y'i nodir yng ngweledigaeth y CDLl Diwygiedig.

**Darparu Cartrefi Newydd**

4.9 Mae'r CDLl Diwygiedig yn rhoi'r cyfle i ddarparu 8,822 o gartrefi yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae hyn yn cyfateb i 588 o gartrefi y flwyddyn rhwng 2018 a 2033. Byddai hyn yn caniatáu i gartrefi newydd gael eu darparu mewn modd cynaliadwy sy'n cefnogi dyheadau'r cymunedau ac yn ymateb i amcanion tai fforddiadwy y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

4.10 Wrth lunio'r gofyniad hwn ystyriwyd Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru, sy'n pwysleisio pwysigrwydd cydbwyso twf tai a swyddi i leihau'r angen i gymudo. Ategir hyn gan asesiad cynhwysfawr o opsiynau tai a thwf economaidd, sy'n adeiladu ar astudiaethau presennol ac sy'n ceisio darparu tystiolaeth gyfredol i lywio'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig[2]. Mae hefyd yn rhoi ystyriaeth lawn i ddarpariaethau Polisi Cynllunio Cymru a'r angen i awdurdodau cynllunio asesu a yw elfennau amrywiol y rhagamcanion yn briodol ar

[1]Adroddiad Ymchwil Prosiect Diffinio Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli (Ionawr 2023)
[2] Adroddiad Tai a Thwf Economaidd – Cyngor Sir Caerfyrddin: Tachwedd 2022

gyfer eu hardal, ac os nad ydynt, iddynt wneud gwaith modelu, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, i ddod o hyd i opsiynau gwahanol[3].

**Adfywio a'r Economi**

4.11 Mae Sir Gaerfyrddin yn gosod adfywio a thwf economaidd yn rhan annatod o'i huchelgeisiau strategol. Mae ei hanes blaenorol o ysgogi a denu buddsoddiad wedi galluogi cyfres o ddatblygiadau strategol arwyddocaol i gael eu denu i'r Sir, yn anad dim y rhai mwyaf diweddar sef y Pentref Gwyddorau Bywyd ym Mhentre Awel, Llanelli a datblygiad Yr Egin/S4C yng Nghaerfyrddin. Nid yn unig y mae'r cyfleoedd hyn wedi ysgogi gwelliannau yn y canolfannau cyflogaeth traddodiadol, ond maent hefyd wedi cyfrannu at ddatblygiadau masnachol sylweddol, cyfleoedd creu lleoedd newydd, gwelliannau i adeiladau a seilwaith newydd, a gwella'r hyn a gynigir yng nghymunedau'r Sir, a gwella eu hadeiledd.

4.12 Mae'r CDLl Diwygiedig yn darparu cyfleoedd i gynnig o leiaf 4,140 o swyddi newydd yn y Sir gan gyfrannu at yr uchelgeisiau economaidd a chyflogaeth strategol ac Adfywio yn y Sir a'r rhanbarth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod digon o dir wedi'i glustnodi i ddarparu 71.21 hectar o ddarpariaeth cyflogaeth.

4.13 Mae'r ddarpariaeth hon o dir cyflogaeth yn canolbwyntio ar Brif Ganolfannau'r CDLl Diwygiedig sydd nid yn unig yn adlewyrchu eu rhinweddau cynaliadwyedd ond hefyd eu hetifeddiaeth hanesyddol yn ogystal â pholisïau cynllunio cenedlaethol, ynghyd â'u statws o fod yn Ardaloedd Twf Cenedlaethol ac yn Ganolfannau Rhanbarthol yn Cymru'r Dyfodol.

## Cyngor Castell-nedd Port Talbot

4.14 Dechreuodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot adolygiad o'i Gynllun Datblygu Lleol. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020, cymeradwywyd Adroddiad Adolygu'r CDLl i'w gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2020.

4.15 Ar ôl i'r Cytundeb Cyflawni (DA) ar gyfer y CDLl newydd gael ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2021, a'i gymeradwyo wedi hynny gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2022, dechreuodd y Cyngor baratoi ei CDLl. Yn unol â'r Cytundeb Cyflawni, cynhaliwyd proses Galwad am Safleoedd (CFS) rhwng 1 Mawrth 2022 a 31 Mai 2022. Cyflwynwyd cyfanswm o 229 o safleoedd.

4.16 Nododd y canfyddiadau rhagarweiniol gan y broses Galwad am Safleoedd, ynghyd â gwybodaeth a gafwyd o Adroddiadau Monitro Blynyddol y Cyngor ac amcanestyniadau twf, fod gofyniad am nodi tai ychwanegol yn ogystal â bod angen rhagor o amser i oresgyn materion seilwaith a hyfywedd presennol.

---

[3] Polisi Cynllunio Cymru. Argraffiad 11 (paragraff 4.2.7)

4.17 O ystyried hyn, penderfynodd y Cyngor roi'r gorau i baratoi'r CDLl Diwygiedig a dechrau eto. Cymeradwyodd y Cyngor Gytundeb Cyflawni newydd ym mis Hydref 2023 ac wedyn cafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cytundeb Cyflawni newydd yn amlinellu'r amserlenni ar gyfer paratoi'r CDLl Diwygiedig newydd a fydd yn cwmpasu cyfnod y cynllun rhwng 2023 a 2038. Yn unol â'r Cytundeb Cyflawni newydd, ymgymerodd y Cyngor â phroses Galwad am Safleoedd ym mis Tachwedd-Rhagfyr 2023.

4.18 Mae'r Cyngor wedi gweithio ar y cyd â Chyngor Abertawe i baratoi Asesiad o Anghenion Tai ac Anghenion Economaidd; gweler isod.

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

4.19 Mabwysiadodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Gynllun Datblygu Lleol 2 ar 30 Medi 2020. Mae dau Adroddiad Monitro Blynyddol llawn wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ac mae Adolygiad o'r Cynllun yn dechrau ym mis Medi 2024.

**Strategaeth Ofodol**

4.20 Roedd CDLl 2 wedi'i adeiladu ar y strategaeth ar gyfer CDLl1 a oedd yn darparu 'strategaeth wledig' a oedd yn ceisio gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol, gan ystyried yr angen i feithrin llesiant economaidd a chymdeithasol y cymunedau. Mae strategaeth gyffredinol CDLl2 yn cyfuno'r angen am ddiogelu'r amgylchedd ac ymagwedd gytbwys a chynaliadwy tuag at gyflawni a dosbarthu datblygiadau newydd.

4.21 Mae elfen dwf Strategaeth y Cynllun yn seiliedig ar asesiad o nifer o ffactorau gan gynnwys: tystiolaeth o angen, materion ac ystyriaethau allweddol, a'r cyd-destun polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Bydd y strategaeth dwf yn ceisio sicrhau bod Dinbych-y-pysgod, Llanusyllt (Saundersfoot), Tyddewi a Threfdraeth yn cynnal eu safle, o'u cymharu â'i gilydd ac o'u cymharu â chanolfannau mwy o faint y tu allan i'r ardal. Mae hierarchaeth anheddiadau'r Cynllun yn cynnwys:

- Haen 1 – Canolfannau Gwasanaeth a Thwristiaeth, sy'n darparu gwasanaethau i'r gefnwlad ehangach ac yn gwasanaethu swyddogaeth cyflogaeth a thwristiaeth;
- Haen 2 – Canolfannau Lleol, sef canolfannau lleol yn bennaf ac mae rhai'n ganolfannau twristiaeth sylweddol;
- Haen 3 – Canolfannau Gwledig, sy'n cynnwys llawer o'r aneddiadau llai o faint yn ardal y Cynllun ac yn cynnig cyfleoedd cyfyngedig yn unig ar gyfer twf, a
- Haen 4 – Cefn Gwlad, lle bydd datblygiad yn cael ei reoli'n llym.

**Darparu Tai Newydd**

4.22 Mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer ffigur gofyniad anheddau o 960 a fyddai, yn amodol ar hyfywedd, yn arwain at ddarparu 362 o dai fforddiadwy newydd. Cefnogir y ddarpariaeth tai fforddiadwy gan bolisïau sy'n blaenoriaethu'r ddarpariaeth gan ailddefnyddio adeiladau cymunedol/cyflogaeth ac adeiladau amaethyddol diangen a thrwy ddatblygu safleoedd eithriedig gwledig.

4.23 Mae tai newydd yn canolbwyntio ar haenau uwch yr hierarchaeth aneddiadau yn enwedig o ran dyraniadau. Defnyddir ffiniau canolfannau i ddiffinio hyd a lled ardal ddatblygadwy o aneddiadau. Yr eithriad i hyn yw lle mae polisïau'n nodi lle mae safleoedd ar ymyl canolfannau'n dderbyniol mewn egwyddor a lle mae patrwm gwasgaredig y canolfannau a nodwyd wedi golygu bod diffinio ffin yn anymarferol.

**Yr Economi a Chyflogaeth**

4.24 Er mwyn gwella llesiant economaidd y Parc Cenedlaethol, y strategaeth yw darparu fframwaith polisi sy'n cefnogi'r economi ymwelwyr a'r sector cyflogaeth. Y dull polisi ar gyfer yr economi ymwelwyr fydd denu'r nifer gorau posibl o dwristiaid drwy gydol y flwyddyn gan sicrhau bod amgylchedd y Parc Cenedlaethol yn parhau i gynnal ei atyniad fel tirwedd o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy reoli'n ofalus y ddarpariaeth o lety a chyfleusterau twristiaeth newydd a phresennol yn y Parc. O ran cyflogaeth, nid yw'r Cynllun yn nodi unrhyw ddyraniad penodol ar gyfer darparu tir newydd at ddefnydd dosbarth B1, B2 na B8 ond mae'n darparu fframwaith sy'n ceisio rheoli defnydd cyflogaeth sy'n bodoli eisoes ac sy'n caniatáu ar gyfer darpariaeth newydd ar raddfa fach. Bydd y dull hwn yn helpu i ddiwallu anghenion a gwella llesiant economaidd-gymdeithasol cymunedau'r Parc.

4.25 Mae Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi mesur dangosyddion y Cynllun i asesu perfformiad y polisïau cynllunio unigol a strategaeth gyffredinol y Cynllun ac i ddangos bod y Cynllun yn perfformio'n dda. Bydd adolygiad o CDLl2 yn dechrau ym mis Medi 2024.

## Cyngor Sir Penfro

**Cyflwyniad**

4.26 Dechreuodd y broses o adolygu CDLl Cyngor Sir Penfro ar 5 Mai 2017, a chyrhaeddodd cam ymgynghoriad cyhoeddus y cam Adneuo ar ddechrau 2020, gydag ymgynghoriad ffurfiol ar y Cynllun Adneuo rhwng 15 Ionawr 2020 a 18 Mawrth 2020.

4.27 Yn dilyn hynny, arweiniodd cyfyngiadau ac effeithiau pandemig COVID-19 at lithriad o ran amserlen paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd Cyngor Sir Penfro (CDLl 2). Felly paratowyd Cytundeb Cyflawni diwygiedig yn nhymor yr hydref 2020, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar 30 Hydref 2020. Cyhoeddwyd Asesiad o Effaith Covid ar CDLl 2 ar yr un pryd.

4.28 Cafodd yr oedi i'r amserlen ei dwysáu ymhellach yn sgil cyhoeddi canllawiau newydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar lefelau Ffosffad Afonol mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ym mis Ionawr 2021 (ynghyd â

sawl diweddariad dilynol). Yn fwy diweddar, mae CNC wedi cyhoeddi rhagor o wybodaeth am baramedrau eraill yn ymwneud ag ansawdd dŵr afonydd mewn dalgylchoedd afonydd yr effeithir arnynt (gan gynnwys dalgylchoedd afonydd Cleddau a Theifi), ac mae rhai o'r materion pellach hyn hefyd yn effeithio ar ardal gynllunio Cyngor Sir Penfro.

4.29 Roedd materion eraill y bu'n rhaid i'r awdurdod ymateb iddynt o fewn yr un amserlen gyffredinol yn cynnwys amrywiaeth o faterion a godwyd yn y sylwadau am Gynllun Adneuo 1 CDLl 2, y newidiadau a ddaeth yn sgil Brexit, Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Cymru'r Dyfodol ynghyd â rhifynnau newydd o Bolisi Cynllunio Cymru a dogfennau canllaw allweddol eraill ar gynllunio yng Nghymru, yn ogystal â llwyddiant y cais ar y cyd rhwng Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot am Borthladd Rhydd Celtaidd.

4.30 Cyflwynwyd adroddiad i Gyngor Llawn Cyngor Sir Penfro ar 9 Rhagfyr 2021, yn amlinellu'r oedi a oedd wedi digwydd i amserlen y CDLl, ac yn y cyfarfod hwnnw cymeradwywyd argymhelliad i baratoi Cytundeb Cyflawni diwygiedig pellach a dychwelyd i Gam Adneuo y broses o baratoi'r cynllun. Felly, mae ail Gynllun Adneuo yn cael ei baratoi ar hyn o bryd, a bydd hwn yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd yn y dyfodol; bydd y ddogfen hon yn un ddiwygiedig a fydd wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau niferus sydd wedi codi ers dechrau 2020.

4.31 Cymeradwywyd y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig Pellach gan Lywodraeth Cymru ar 20 Mehefin 2023 ac mae ar gael i'w weld ar wefan Cyngor Sir Penfro. Mae'n cynnwys amserlen ddiwygiedig yn rhagweld y bydd ymgynghoriad ar Gynllun Adneuo 2 a fydd yn dechrau ym mis Ionawr 2024, yna'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn mis Medi 2024, ei archwilio yn ystod gaeaf 2024-25, cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd ym mis Awst 2025, a'i Fabwysiadu ym mis Hydref 2025.

4.32 Yn anffodus, yn dilyn hyn, llithrodd yr amserlen ymhellach, felly mae'n annhebygol y bydd yr ymgynghoriad ar Gynllun Adneuo 2 yn dechrau tan yn ddiweddarach yn 2024, a bydd oedi i'r camau eraill sy'n weddill ym mhroses y Cynllun hefyd. Mae Cyngor Sir Penfro wedi trafod y mater hwn â Llywodraeth Cymru, a disgwylir i bedwaredd fersiwn y Cytundeb Cyflawni gael ei pharatoi yn 2024 yn nodi diwygiadau pellach i'r amserlen.

4.33 Mae Cynllun Adneuo 1 CDLl 2 CSP, o 2020, yn nodi'r sefyllfa ddiwethaf a gyhoeddwyd o ran cyfeiriad polisïau a chynigion i'w cynnwys yn CDLl 2. Fodd bynnag, nid yw CSP yn bwriadu datblygu'r fersiwn hon o'r Cynllun ymhellach a bydd, yn ystod 2024, yn cyflwyno Cynllun Adneuo 2 i'w Gabinet ac i'r Cyngor, a fydd, gan barhau i gael ei osod yn y cyd-destun a ddarperir gan Strategaeth a Ffefrir CDLl 2 2018, yn adlewyrchu popeth sydd wedi digwydd yn y cyfnod ers dechrau 2020.

4.34 Byddai cyflwyno safbwynt Cynllun Adneuo 1 ynghylch themâu strategol allweddol, darparu cartrefi newydd ac adfywio a'r economi yn y papur hwn yn gamarweiniol, felly yn lle hynny mae'r themâu hyn yn cael eu trafod yng nghyd-destun yr hyn a allai gael ei gynnwys yng Nghynllun Adneuo 2, ond gan dderbyn nad yw'r

fersiwn ddiweddaraf wedi'i chymeradwyo'n ffurfiol gan CSP yn sail ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, ac o ganlyniad, y gallai newid.

**Themâu Strategol Allweddol:**

4.35 Mae'r materion a'r ysgogwyr allweddol ar gyfer CDLl 2 Cyngor Sir Penfro yn seiliedig ar Gynllun Llesiant Sir Benfro 2018. Ymgorfforwyd y rhain yn yr Adroddiad Adolygu ac yn dilyn hyn fe'u dygwyd ymlaen i Strategaeth a Ffefrir CDLl 2 a'r Cynllun Adneuo cyntaf. Maent wedi'u grwpio o dan y penawdau canlynol:

- Byw a Gweithio
- Cymunedau Dyfeisgar
- Mynd i'r Afael â Natur Wledig
- Diogelu ein Hamgylchedd

4.36 Yn achos yr ail Gynllun Adneuo, rhagwelir y bydd y themâu hyn yn cael eu dwyn ymlaen, ond y cyfeirir hefyd at yr Amcanion Llesiant sydd wedi'u hymgorffori yn fersiwn 2023 o Gynllun Llesiant Sir Benfro, sydd fel a ganlyn:

- Cefnogi twf, swyddi a ffyniant, a galluogi'r newid i economi mwy cynaliadwy a gwyrddach.
- Gweithio gyda'n cymunedau i leihau anghydraddoldebau a gwella llesiant.
- Hybu a chefnogi mentrau i gyflawni datgarboneiddio, rheoli'r broses o addasu i'r hinsawdd a mynd i'r afael â'r argyfwng natur.
- Galluogi cymunedau diogel, cysylltiedig, dyfeisgar ac amrywiol.

**Darparu cartrefi newydd:**

4.37 Yn achos Cynllun Adneuo 2 CDLl 2, y sefyllfa dros dro yw y bydd lefel y twf a ragwelir yn ystod cyfnod y Cynllun rhwng 2017 a 2033 ar gyfer 5,840 o gartrefi newydd (365 y flwyddyn), sy'n deillio o Amcanestyniadau Aelwydydd Llywodraeth Cymru o 2018. Roedd lwfans hyblygrwydd o 10% wedi'i gymhwyso i'r ffigur hwn, gan roi cyfanswm o 6,425 o anheddau yn ystod cyfnod y cynllun 16 mlynedd.

4.38 Yn ystod chwe blynedd gyntaf cyfnod y Cynllun, tangyflawnwyd o ran darparu cartrefi newydd (cwblhawyd 2,016 o gartrefi, ar gyfradd gwblhau flynyddol gyfartalog o 336 o anheddau yn ystod y cyfnod chwe blynedd).

4.39 Mae hynny'n addasu'r gofyniad o ran tai yn ystod y cyfnod o 10 mlynedd sy'n weddill i 3,824 o gartrefi (382 o anheddau'r flwyddyn), sydd, ar ôl cymhwyso cynnydd o 10%, yn ei gwneud yn ofynnol darparu 4,206 o gartrefi.

4.40 Mae targed ar gyfer tai fforddiadwy'r cynllun o 2,000 o anheddau o leiaf (125 y flwyddyn), a fydd yn elfen o'r ddarpariaeth dai gyffredinol ac sy'n seiliedig ar lefelau hanesyddol a disgwyliedig o ddarparu tai fforddiadwy yn hytrach nag ar lefel yr angen.

4.41 O ran y dosraniad, rhagwelir y bydd tai newydd yn cael eu darparu ar sail rhaniad lle mae 60% yn drefol a 40% yn wledig. Bydd Hierarchaeth Aneddiadau'r Cynllun yn darparu sail ar gyfer dosraniad 'fesul anheddiad' a bydd, yn rhannol, yn adlewyrchiad o'r Ardaloedd Twf Rhanbarthol a nodir yn Cymru'r Dyfodol ac, yn rhannol, o'r nodweddion gweithredol ac argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau mewn aneddiadau, fel y nodir yn sylfaen dystiolaeth CDLl 2.

4.42 Yr aneddiadau ac iddynt statws Ardal Dwf Ranbarthol yn ardal gynllunio'r Cyngor yw Hwlffordd, Aberdaugleddau, Penfro a Doc Penfro.

**Adfywio a'r Economi**

4.43 Amcangyfrifir, ar sail rhagolygon economaidd, y bydd CDLl 2 yn cefnogi proses o ddarparu tua 1,970 o swyddi ledled Sir Benfro i gefnogi ffyniant a thwf economaidd yn ystod cyfnod y Cynllun. Rhagwelir y bydd tua 167 hectar o dir ledled ardal y Cynllun yn cael ei glustnodi at ddefnydd tir cyflogaeth (yn nosbarthau defnydd categori B a thebyg), er y gallai'r ffigur hwn gael ei fireinio ymhellach cyn ei ail-adneuo yn 2024. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys y safleoedd cyflogaeth presennol sy'n cael eu diogelu gan y Cynllun, ac y gallai cyfleoedd eraill ar gyfer datblygiad economaidd godi o fewn eu ffiniau.

4.44 Yn ogystal â'r uchod, mae llwyddiant diweddar cais y Porthladd Rhydd Celtaidd yn creu disgwyliad y bydd yna ragor o dwf swyddi y tu hwnt i'r hyn a seiliwyd ar ragolygon economaidd blaenorol. Yn ystod cyfnod y Cynllun, rhagwelir y gallai 1,000 o swyddi ychwanegol gael eu darparu hyd at 2033, er ei bod yn rhy gynnar yn y broses o ddatblygu cynigion y Porthladd Rhydd ar hyn o bryd i roi amcangyfrif mwy cywir, neu i wahaniaethu rhwng swyddi yn y cyfnod adeiladu a swyddi yn y cyfnod gweithredol.

## Cyngor Abertawe

4.45 Mae gwaith ar y gweill i gynhyrchu'r CDLl Abertawe newydd ar gyfer 2023-2038. Cymeradwyodd y Cyngor y Cytundeb Cyflawni yn swyddogol ar gyfer y CDLl newydd ym mis Gorffennaf 2023, a dderbyniwyd wedi hynny gan Lywodraeth Cymru.

4.46 Dechreuodd y cyfnod 'Galwad am Safleoedd Ymgeisio' ym mis Awst 2023 a daeth hwnnw i ben ar 31 Hydref 2023. Mae'r Cyngor bellach yn cynnal yr Asesiad Cam 1 (sifftio cychwynnol) ar gyfer safleoedd a gyflwynwyd, yn unol â'r Fethodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisio a gyhoeddwyd. Bydd y broses sifftio hon yn ystod Cam 1 yn penderfynu a fydd safleoedd yn symud ymlaen i Asesiadau manwl Camau 2 a 3 gan lywio'r broses o baratoi'r Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir.

4.47 Y bwriad yw gwneud gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd rhwng mis Mawrth a mis Mai 2024 i lywio'r broses o lunio materion, gweledigaeth ac amcanion allweddol a fydd yn rhan o'r Strategaeth a Ffefrir. Mae'r canllawiau a ddarperir gan Gynllun Llesiant Abertawe a'i ethos 'Un Abertawe', ynghyd ag ysgogwyr strategol/corfforaethol perthnasol eraill (yn ogystal â Cymru'r Dyfodol a pholisi cynllunio cenedlaethol) yn chwarae rhan allweddol wrth lywio'r gwaith cychwynnol hwn.  Ar yr un pryd, mae'r Cyngor hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid ynghylch ystod o opsiynau twf, sydd wedi'u llunio gan ddefnyddio amcanestyniadau Llywodraeth Cymru fel y man cychwyn. Mae'r opsiynau twf hyn yn sicrhau bod gofynion twf economaidd a thwf tai yn cael eu hystyried ochr yn ochr, gan gynnwys canfyddiadau Asesiad newydd o'r Farchnad Dai Leol.

4.48 Amlygir yr opsiynau drafft ar gyfer twf tai a chyflogaeth yn rhannau diweddarach o'r ddogfen hon, ond mae'n bosibl y bydd y rhain yn newid wrth i broses y CDLl fynd yn ei blaen ac wrth roi sylw i argymhellion terfynol asesiadau technegol perthnasol.

4.49 Mae ystod o waith sylfaen dystiolaeth ac asesiadau hefyd yn cael eu datblygu, sy'n cynnwys asesiad Gwybodaeth Ddaearyddol (GI) ar draws y sir ac asesiadau cynhwysfawr o'r banciau tir tai a chyflogaeth presennol.

4.50 Disgwylir i ymarferion ymgynghori ddechrau yn ddiweddarach yn 2024 ar y fersiwn drafft o'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer CDLl Abertawe 2023-2038, ac ym mis Hydref 2025 ar y Cynllun Adneuo. Hefyd cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Drafft ac mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn parhau i chwarae rhan gyson bwysig yn y broses o lunio'r Cynllun.

## 5. Themâu Rhanbarthol

5.1 Mae'r canlynol yn adlewyrchu'r themâu rhanbarthol allweddol a amlygir yn Cymru'r Dyfodol, ynghyd â materion cytunedig ac iddynt effeithiau trawsffiniol.

- Daearyddiaeth Strategol: Maint a lleoliad twf
- Tai
- Twf Economaidd
- Yr Argyfwng Hinsawdd a Datgarboneiddio
- Rheoli Adnoddau Naturiol
- Y Perygl o Lifogydd
- Seilwaith cysylltedd digidol a chludiant

5.2 Mae gan gynllunio gofodol rôl hanfodol i'w chwarae o ran galluogi ac annog y newid i gymdeithas garbon isel, gystadleuol a chydnerth sydd hefyd yn cefnogi'r amgylchedd ac iechyd a llesiant pobl[4]. Mae'r Papur Sefyllfa hwn yn cydnabod pwysigrwydd trosfwaol rôl y system gynllunio o ran ymateb i heriau'r argyfwng newid yn yr hinsawdd a'r angen i leihau allyriadau carbon er mwyn cyflawni targedau carbon sero net cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Wrth wneud hynny mae'n cydnabod y datganiadau am argyfyngau ar lefel genedlaethol a lleol mewn perthynas â Newid yn yr Hinsawdd a natur.

5.3 Mae'n cydnabod bod mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, cefnogi datblygu cynaliadwy a datrysiadau o ran cludiant, a chyflawni gwelliannau amgylcheddol a budd net o ran bioamrywiaeth yn faterion trawsbynciol a thrawsffiniol eu natur. Er bod angen ymgorffori themâu o'r fath mewn CDLlau, byddant yn ystyriaethau annatod wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol ac yng nghyfrifoldebau eraill y Cyd-bwyllgor Corfforedig mewn perthynas ag ynni a chludiant.

### Daearyddiaeth Strategol a Maint a Lleoliad Twf

5.4 Dywed Polisi 1 Cymru'r Dyfodol, sef 'Lle bydd Cymru yn Tyfu', fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf cynaliadwy ym mhob rhan o Gymru ac yn nodi'r tair Ardal Dwf Genedlaethol a ganlyn lle mae'n dweud y bydd yna dwf mewn cyfleoedd cyflogaeth a thai, a buddsoddi mewn seilwaith:

- Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd;
- Bae Abertawe a Llanelli; a
- Wrecsam a Glannau Dyfrdwy

5.5 Dywed Polisi 1 bod Ardaloedd Twf Rhanbarthol yn ategu'r Ardaloedd Twf Cenedlaethol hyn yn y tri rhanbarth a ganlyn a fydd, yn ôl Cymru'r Dyfodol, yn tyfu, yn datblygu ac yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus a masnachol yn rhanbarthol:

- Y De-orllewin;
- Y Canolbarth;
- Y Gogledd

5.6 Nid yw Cymru'r Dyfodol yn diffinio hyd a lled Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli, ond yn hytrach mae'n cynnwys cynrychioliad gweledol bras o'i ffin, a welir isod.

---

[4] *The Climate Crisis: A Guide for Local Authorities on Planning for Climate Change.* TCPA ac RTPI. Ionawr 2023




Ffigur 1: Diagram rhanbarthol strategol wedi ei gymryd o Cymru’r Dyfodol Y Cynllun Cenedlaethol 2040

5.7 Yn ogystal â'r ardaloedd twf uchod, dywed Polisi 1 y dylai datblygiad a thwf mewn trefi a phentrefi mewn ardaloedd gwledig fod yn briodol o ran maint a chefnogi dyheadau ac anghenion lleol.

5.8 Mae'r Rhanbarth yn cwmpasu un ddinas, nifer o drefi mawr, trefi llai a threfi marchnad ffyniannus, ardaloedd lled-drefol eraill, aneddiadau gwledig, a phentrefi, lle mae llawer o'r pentrefi hynny wedi'u lleoli ynghanol ardal wledig sylweddol. Mae’n cynnwys un Ardal Dwf Genedlaethol – sef Bae Abertawe a Llanelli (Cymru'r Dyfodol, Polisi 28) a dwy Ardal Dwf Ranbarthol – sef Caerfyrddin a Threfi Porthladd Sir Benfro (Hwlffordd, Aberdaugleddau, Penfro, a Doc Penfro) (Cymru’r Dyfodol, Polisi 29) fel y nodir yn Cymru’r Dyfodol.

5.9 Mae chwe awdurdod y rhanbarth yn gyfrifol am baratoi CDLlau ar gyfer eu Cynllun ardal priodol. Nodir bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau'r rhanbarth ac yn rhyngweithio â dulliau rhanbarthol eraill ledled Cymru. Wrth baratoi eu CDLlau newydd, bydd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ystyried darpariaethau Cymru'r Dyfodol a chynnwys Polisi Cynllunio Cymru.

5.10 Mae agosrwydd y prif ardaloedd trefol, yn arbennig y rhai sy'n rhan o'r Ardal Dwf Genedlaethol, a'r ffaith ei bod yn weddol hawdd cymudo rhyngddynt ar gyfer gwaith a hamdden, yn amlygu cysylltiadau cryf o fewn ac ar draws llawer o'r rhanbarth. Fodd bynnag, nodir bod y ffiniau gweinyddol sy'n cwmpasu'r Rhanbarth yn dangos cymhlethdod y ddaearyddiaeth â'i chymysgedd o gymunedau trefol a gwledig, ond hefyd nodweddion sy'n canolbwyntio ar dreftadaeth ddiwydiannol ynghyd â'r nodweddion cyffredin.

5.11 Nid yw daearyddiaeth ddiwylliannol, tirweddau a seilwaith gwyrdd a glas y Ddinas-ranbarth erioed wedi'u hasesu'n uniongyrchol yn eu cyfanrwydd, ond mae yna gysylltiadau clir a chydnabyddiaeth a rennir o werth y nodweddion adeiledig ac amgylcheddol hyn. Mae’r rhain yn cynnwys y ddau barc cenedlaethol, Ardal o

Harddwch Naturiol Eithriadol, dynodiadau rhyngwladol o ran yr amgylchedd, a rhwydweithiau afonydd, yn ogystal â nifer o asedau hanesyddol a diwylliannol.

5.12 Fodd bynnag, nid yw'r berthynas rhwng ardaloedd yn dod i ben wrth y ffin ranbarthol, ac rydym yn ymrwymedig i weithio gyda'r holl awdurdodau a rhanbarthau cyfagos.

**Cydweithio Rhanbarthol – Adroddiad Ymchwil Prosiect Diffinio Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli (Ionawr 2023)**

5.13 Aeth awdurdodau Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe ati ar y cyd i gynnal asesiad cynhwysfawr o Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli. Bwriadwyd i'r adroddiad fireinio hyd a lled gofodol yr Ardal Dwf Genedlaethol ac iddo lywio'r gwaith o baratoi CDLlau newydd yr awdurdodau lleol unigol. Byddai'r ymchwil hefyd yn rhan o dystiolaeth gefndir i gefnogi'r gwaith o lunio polisïau a chynigion ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol y De-orllewin.

5.14 Wrth fireinio'r Ardal Dwf Genedlaethol, cynhaliodd yr ymchwil asesiad o'r cyfyngiadau a'r cyfleoedd ledled yr ardal. Bydd hyn yn ei dro nid yn unig yn llywio’r gwaith o gynhyrchu CDLlau newydd ond bydd hefyd yn llywio gwaith y Cyd-bwyllgor Corfforedig wrth iddo ddiffinio maint yr Ardal Dwf Genedlaethol yn rhan o’r gwaith o baratoi’r Cynllun Datblygu Strategol.

5.15 Mae'r gwaith o baratoi'r ymchwil hon yn unol â thestun ategol Cymru'r Dyfodol Polisi 19, sef 'Polisïau Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol', sy'n nodi y dylid cynllunio twf yr Ardal Dwf Genedlaethol trwy baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol. Bydd y diffiniad terfynol o'r Ardal Dwf Genedlaethol yn y Cynllun Datblygu Strategol yn bwysig wrth fframio'r gwaith cynllunio gofodol lefel uwch hwn rhwng yr awdurdodau. Mae'r ymchwil yn cydnabod mai un o ofynion polisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol yw bod pob Cynllun Datblygu Strategol a Chynllun Datblygu Lleol yn cydymffurfio'n gyffredinol â nhw eu hunain ac â Cymru'r Dyfodol. O ganlyniad, bydd y gwaith ar y cyd hwn hefyd yn llywio gwaith awdurdodau cynllunio lleol unigol wrth iddynt ddatblygu eu CDLlau newydd. Mae hyn yn cydnabod y gallai’r diffiniad o ffin a graddfa ofodol yr Ardal Dwf Genedlaethol ym mhob awdurdod fod â goblygiadau i strategaeth ofodol y CDLl, ac felly i ddosbarthiad y tir ar gyfer tai a thir cyflogaeth.




Ffigur 2: Darluniad dangosol o’r Ardal Dwf Genedlaethol a fireiniwyd o safbwynt gofodol, wedi ei gymryd o Adroddiad Ymchwil Prosiect Diffinio Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli (Ionawr 2023) gan Turley

**Tai**

5.16 Mae pob Awdurdod Cynllunio Lleol yn y Rhanbarth, trwy eu CDLlau mabwysiedig presennol neu eu CDLl newydd, yn ceisio sicrhau bod eu hanghenion tai eu hunain yn cael eu diwallu o fewn ffiniau ei Hawdurdod Lleol, lle mae hyn yn cyd-fynd â pholisïau cynllunio cenedlaethol.  Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r dilyniant y dylid ei ddilyn wrth nodi safleoedd i'w dyrannu: dylid rhoi blaenoriaeth i dir a ddatblygwyd o'r blaen a safleoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n llawn (o fewn yr awdurdod neu awdurdodau cyfagos), ac yna safleoedd tir glas addas a chynaliadwy o fewn aneddiadau neu ar eu cyrion. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid ystyried nodi safleoedd yng nghefn gwlad agored, gan gynnwys aneddiadau newydd. Wrth ymateb i'w hanghenion unigol a'u tystiolaeth, rhoddir ystyriaeth i ddarpariaethau Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru rhifyn 12 gan gydnabod y berthynas rhwng gofynion o ran tai ac amcanestyniadau o ran y boblogaeth ac elfennau cyfansoddol y rhagolygon hynny (h.y. genedigaethau, marwolaethau, mudo, ac ati) – 'Mae angen i awdurdodau cynllunio asesu a yw elfennau gwahanol yr amcanestyniadau yn briodol i’w  hardal,

ac os nad ydynt, dylent wneud gwaith modelu, ar sail tystiolaeth gadarn, i nodi dewisiadau amgen.’ (paragraff 4.2.7 PCC rhifyn 12).

5.17 Bydd lefel gyfansoddol y twf tai a gynllunnir a'r berthynas â thargedau cyflogaeth a thwf economaidd yn faterion a fydd yn cael eu hystyried trwy seiliau tystiolaeth priodol. Hefyd bydd angen ystyried diwallu'r angen rhanbarthol am dai fel y manylir yn Cymru'r Dyfodol. Mae Polisi 7 Cymru'r Dyfodol yn cynnwys amcangyfrifon cenedlaethol a rhanbarthol o ran angen. Mae'n datgan nad ydynt yn adlewyrchu polisïau na digwyddiadau'r dyfodol ac nad ydynt yn Ofyniad o ran Tai ar gyfer Cymru na'r rhanbarthau. Ond mae'r amcangyfrifon yn darparu rhan o'r dystiolaeth a'r cyd-destun y gellir seilio'r polisi a'r gofynion tai arnynt. Dylai'r amcangyfrifon o anghenion y farchnad a thai fforddiadwy lywio'r gofynion tai a nodir mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol, a disgwylir y bydd y gofynion tai yn wahanol i'r amcangyfrifon o'r angen am dai. Dros yr 20 mlynedd nesaf (2019 – 2039) tua 25,600 yw'r amcangyfrif o'r angen am dai ychwanegol yn y rhanbarth, o dan yr amcangyfrif canolog (Polisi 28). Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar waith ymchwil a wnaed yn 2020 ac fe'u hystyriwyd wrth lunio opsiynau/targedau twf ar gyfer pob Awdurdod Cynllunio Lleol gan hefyd ystyried tystiolaeth gyfredol arall.

5.18 Mae pob awdurdod lleol yn y rhanbarth wedi gwneud gwaith ychwanegol i ganfod y lefel briodol o dwf yn ardaloedd eu hawdurdod lleol. Mae'r CDLlau newydd sy'n cael eu paratoi yn y rhanbarth yn dilyn gwahanol amserlenni ac o'r herwydd nid yw'r amserlenni ar gyfer paratoi'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi'r cynlluniau wedi cydredeg â'i gilydd. Serch hynny, mae'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yn y rhanbarth wedi cydweithio wrth wneud gwaith ychwanegol i fireinio'r Ardal Dwf Genedlaethol (fel y trafodwyd uchod) ac maent wedi mabwysiadu methodolegau tebyg yn seiliedig ar y canllawiau a nodir o fewn Polisi Cynllunio Cymru i nodi'r lefel briodol o dwf o fewn ardaloedd yr awdurdod priodol.

5.19 Nid diben y Papur Sefyllfa hwn yw bod yn fecanwaith i ystyried y lefel ranbarthol o dwf tai nac i ystyried materion yn ymwneud â dosraniadau ledled y rhanbarth. Er gwaethaf hyn, mae'n amlwg o ystyried ffigurau priodol y gofyniad o ran tai mewn Cynlluniau Adneuo cyhoeddedig ynghyd â ffigurau datblygol o ran angen am dai gan yr awdurdodau yn y tabl isod, pe bai'r rhain yn cael eu mabwysiadu fel gofyniad o ran tai yn y dyfodol, byddai hyn yn sicrhau mai Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli fydd y ***prif ganolbwynt ar gyfer twf a buddsoddiad*** *yn rhanbarth* y De-orllewin yn unol â Pholisi 28 Cymru'r Dyfodol. Mae'r niferoedd a ddangosir yn Nhabl 1 isod yn cyd-fynd yn fras â'r ffigur rhanbarthol (25,600) yn Cymru'r Dyfodol, sy'n amrywio o 25K ar y pen isaf i 29k ar ben uchaf yr ystodau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd.

**Tabl 1: Y Gofyniad o ran Tai**

| **Yr Awdurdod** | **Y Gofyniad o ran Tai** | **Y Gofyniad Blynyddol** | **Statws y CDLl** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | Aros am wybodaeth | Aros am wybodaeth | Aros am wybodaeth |
| Cyngor Sir Caerfyrddin * | 8,822 | 588 | Rheoliad 17-21<br><br>Ail CDLl Adneuo Diwygiedig |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot ** | **rhwng 2,940 a 4,680 o angen am dai (nid gofyniad yw hwn)** | **196-312 y flwyddyn (angen, nid gofyniad)** | |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | 960 | 60 | Mabwysiadwyd ym mis Medi 2020 – Adolygiad yn dechrau ym mis Medi 2024 |
| Cyngor Sir Penfro * | 5,840, ond ar ôl cymhwyso cynnydd o 10% mae'n codi i 6,425 | 365 | Dyma'r ffigurau y mae swyddogion yn rhagweld ar hyn o bryd y byddant yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Adneuo 2, CDLl 2 yn 2024, ond ar yr amod bod Cabinet a Chyngor CSP yn cytuno i hynny. |
| Cyngor Abertawe ** | rhwng 7,710 a 9,510 dros 2023-38<br><br>[Angen yw hwn ac nid gofyniad - bydd angen ychwanegu lwfans hyblyg ar ben hyn]. | 514 - 634<br><br>[Angen yw hwn ac nid gofyniad] | Ar fin ymgynghori'n anffurfiol ynghylch opsiynau strategol – felly mae'r rhain yn opsiynau drafft i'w hystyried cyn i'r Strategaeth a Ffefrir gael ei llunio yn ddiweddarach yn 2024 |

**Nodir bod Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Penfro wedi dechrau paratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol Newydd ac wedi paratoi a chyhoeddi'r Strategaethau a Ffefrir ganddynt cyn cyhoeddi'r drafft o Cymru'r*

*Dyfodol, ac felly roeddent wedi nodi eu strategaethau twf a'u strategaethau gofodol yn rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynlluniau ac yn unol â darpariaethau Polisi Cynllunio Cymru.*

***Mae'r rhain yn ffigurau drafft gweithio hyd nes bod gwaith technegol perthnasol sy'n darogan twf yn dod i ben*

### Cydweithio Rhanbarthol – Asesiad o Dai y Canolbarth a'r De-orllewin

5.20 O dan Adran 8 o Ddeddf Tai 1985, mae yna ofyniad ar Awdurdodau Lleol i ystyried anghenion o ran tai ar gyfer llety yn eu hardaloedd. Er mwyn cyflawni'r gofyniad hwn, rhaid i Awdurdodau Lleol Cymru lunio Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol, sy'n adolygu anghenion o ran tai. Yn rhan o'r dull gweithredu hwn ac yn unol â gofynion Polisi Cynllunio Cymru am yr angen i awdurdodau cynllunio ddeall eu marchnad dai leol a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ofynion o ran tai yn eu hardal, mae'r awdurdodau llofnodol wedi gweithio ar y cyd i lunio Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol gan ddefnyddio methodoleg gyson.

5.21 Asesiad o Dai y Canolbarth a De-orllewin Cymru - Tystiolaeth o'r Farchnad Dai ar gyfer: Canolbarth a De-orllewin Cymru 2019 a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020. Roedd yr Asesiad hwn o'r Farchnad Dai Leol yn ystyried cyflwr y farchnad dai gyfan, ac yn cynnwys asesiad o'r angen am dai fforddiadwy o ddeiliadaethau gwahanol (megis rhent cymdeithasol, rhent fforddiadwy, perchentyaeth cost isel, ac anghenion lleol penodol am dai fforddiadwy) ac anghenion gwahanol cymunedau, a ddylai gynnwys gofynion o ran tai ymhlith pobl hŷn, myfyrwyr, pobl ag anableddau, ac anghenion tai lleol ar gyfer y farchnad dai.

**Asesiad Twf Economaidd a Thai Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe ac Asesiad o'r Farchnad Dai leol**

5.22 Yn fwy diweddar, comisiynwyd *Turley*, *SQW* ac *Edge Analytics* gan Gastell-nedd Port Talbot ac Abertawe i gynnal asesiad o dai a thwf economaidd ar gyfer eu hardaloedd gweinyddol. Defnyddiwyd methodoleg gyffredin i ystyried y berthynas swyddogaethol a strategol rhwng yr awdurdodau o ran tai a'r economi. Ymgynghorwyd ag awdurdodau yn rhanbarth y De-orllewin ynghylch y fethodoleg hon. Roedd hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth i hyd a lled daearyddol ardaloedd marchnad economaidd swyddogaethol, gyda mwy o Ardaloedd o'r Farchnad Dai lleol wedi'u diffinio ar wahân yn Asesiad y Cyngor o'r Farchnad Dai Leol (LHMA).

5.23 Mae'r astudiaeth yn darparu dadansoddiad sylfaenol cyfoes o setiau data demograffig, economaidd a setiau data ynghylch tai, yn ogystal ag adolygiad o dystiolaeth o'r farchnad fasnachol. Hefyd, mae'n datblygu senarios a ragwelir o dwf cyflogaeth rhesymol sy'n cyfrif am yr amodau economaidd presennol a'r buddsoddiad cynlluniedig a phosibl a nodwyd. Arweiniodd hyn, yn ei dro, at gyfrifo swm a chyfansoddiad tir cyflogaeth y gallai fod ei angen i ddarparu ar gyfer buddsoddiad busnes ac i ragweld twf cyflogaeth; yna fe'i defnyddir i ddarparu asesiad o dwf aelwydydd yn y dyfodol a lefelau'r angen am dai sy'n cyfrif am dueddiadau demograffig a graddfa'r newid yn y gweithlu sydd ei angen i gefnogi'r rhagolygon a gyflwynir o ran twf swyddi.

## Twf Economaidd

5.24 Mae pwysigrwydd twf economaidd a chreu swyddi ledled y rhanbarth yn cael ei gydnabod. Cydnabyddir, fodd bynnag, y bydd yr amrywiad a nodweddion gofodol ledled yr awdurdodau, yn enwedig y rhai â chyd-destun gwledig, yn arwain at rywfaint o amrywiad o ran y dulliau polisi ac o bosibl o ran dosbarthiad safleoedd, ynghyd â darpariaeth lai ar gyfer busnesau cynhenid a busnesau newydd. Yn hyn o beth, mae patrymau gweithgarwch economaidd yn amrywio o le i le. Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi ystyried darpariaethau polisïau cynllunio cenedlaethol a'r angen i adlewyrchu egwyddorion cynaliadwyedd wrth glustnodi safleoedd cyflogaeth. Serch hynny, bu Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cydweithio i gomisiynu *Arup* i gynnal Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir yn 2021. Ers hynny mae'r rhain wedi cael eu hategu gan waith pellach gan yr awdurdodau unigol, ond sicrhaodd yr astudiaeth gychwynnol ddull cyffredin a chyson. Yn yr un modd, ymgymerodd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ag Asesiad Twf Economaidd a Thai ar y cyd. Rhannwyd y methodolegau ar gyfer y ddwy astudiaeth ar y cyd â'r Awdurdodau yn y rhanbarth i sicrhau eu bod yn gydnaws â'r cynlluniau newydd sydd ar y gweill.

5.25 Mae'r gwaith o baratoi CDLlau yn y Rhanbarth ar gamau gwahanol, ac yn cwmpasu cyfnodau gwahanol. Maent yn cael eu paratoi, neu wedi'u paratoi, gan ddefnyddio tystiolaeth berthnasol a chadarn i ddarparu ar gyfer twf swyddi.

5.26 Yn nhermau ardaloedd teithio i’r gwaith, mae’r ffigur isod yn dangos bod dinas a sir gyfan Abertawe, a’r rhan fwyaf o Gastell-nedd Port Talbot o fewn Ardal Teithio i’r Gwaith Abertawe, yn ôl hynny a ddiffiniwyd ar sail cyfrifiad 2011. Hefyd, mae Ardal Teithio i’r Gwaith Abertawe yn ymestyn ychydig ymhellach i’r gogledd, i ran de-orllewinol Powys, yng nghyffiniau Ystradgynlais. O ran Ardal Teithio i’r Gwaith Llanelli, er ei bod yn cynnwys rhan fechan o Gastell-nedd Port Talbot, mae’n cwmpasu’r rhan fwyaf o Sir Gaerfyrddin, ac yn cynnwys Rhydaman a Cross Hands, yn ogystal ag yn ymestyn tua’r gorllewin i gwmpasu Sir Gaerfyrddin a’i chefnwlad. Mae Hwlffordd ac Aberdaugleddau, yn ogystal â Phenfro a Dinbych-y-pysgod, yn ffurfio’r Ardaloedd Teithio i’r Gwaith yn Sir Benfro.




Ffigur 3: Ardaloedd Teithio i'r Gwaith 2011, wedi ei gymryd o ONS

## Yr Argyfwng Hinsawdd a Datgarboneiddio

5.27 Mae newid yn yr hinsawdd yn thema drawsbynciol ac mae gan gynllunio strategol rôl allweddol i'w chwarae o ran sicrhau datblygu cynaliadwy a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo. Mae nifer o'r  pynciau yr ymdrinnir â nhw yn y Datganiad hwn yn allweddol i leihau a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, yn enwedig bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol a chludiant. Mae hyn yn cynnwys dylanwadu ar leoliad tai newydd, cyflogaeth a datblygiadau eraill sydd, yn ei dro, yn effeithio ar yr angen i deithio a chael mynediad at ddulliau teithio mwy cynaliadwy. O'r herwydd, yn ogystal â'r egwyddorion a nodir isod, bydd yna gamau gweithredu pellach a amlinellir mewn fersiynau o'r datganiad hwn yn y dyfodol neu yn rhan o'r agenda rhanbarthol sy'n cynnwys gwaith y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a fydd yn adeiladu ar Strategaeth Ynni De-orllewin Cymru a chynlluniau ynni ardal leol yr Awdurdodau Lleol. .

5.28 Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi manylion yr awdurdodau hynny sydd wedi datgan Argyfyngau Hinsawdd a'u dyddiadau ar gyfer cyflawni targedau.

**Tabl 2: Yr Argyfwng Hinsawdd a Datgarboneiddio**

| **Yr Awdurdod** | **Dyddiad y Datganiad** | **Dyddiad Targed** |
|---|---|---|
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 20 Chwefror 2019 | 2030 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 28 Medi 2022 | 2030 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Ymateb i'r Cynllun Gweithredu ynghylch yr Argyfwng Newid Hinsawdd (yn gysylltiedig â'r Cynllun Rheoli) | 2020-2030 |
| Cyngor Sir Penfro | Mai 2019 | Mae CSP wedi paratoi cynllun gweithredu i lywio’r Cyngor tuag at ddod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030. |
| Cyngor Abertawe | Mehefin 2019 | Bydd Cyngor Abertawe yn sero net sefydliadol erbyn 2030, a nodir y targed sero net cymdeithasol ehangach, sef 2050 |

## Rheoli Adnoddau Naturiol

5.29 Mae pob awdurdod yn y Rhanbarth yn cydnabod pwysigrwydd gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol, ac maent yn rhoi ystod o gamau gweithredu ar waith o ganlyniad, a hynny y tu mewn a'r tu allan i faes dylanwad y system gynllunio. At hynny, mae Cynghorau Sir Gaerfyrddin ac Abertawe (2021) wedi datgan argyfyngau natur neu fioamrywiaeth sy’n cyd-fynd â datganiadau am yr argyfwng hinsawdd, ac sy’n cyfeirio at ddatblygu camau gweithredu a gweithgarwch pellach.

5.30 Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (y Ddeddf) ddyletswydd fanylach o ran bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau (dyletswydd adran 6 neu a6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus wrth iddynt gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â Chymru. Mae dyletswydd a6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus 'geisio cynnal ac ehangu bioamrywiaeth cyn belled ag y bod hynny’n gyson â chyflawni eu swyddogaethau’n briodol gan hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau drwy wneud hynny’. Er mwyn cydymffurfio â’r ddyletswydd a6, dylai awdurdodau cyhoeddus ymgorffori’r angen i ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau

yn eu syniadau a'u cynlluniau busnes cychwynnol, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgarwch o ddydd i ddydd. O dan adran 6(7) o'r Ddeddf, cyn diwedd 2019 a chyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019, mae'n rhaid i bob awdurdod cyhoeddus gyhoeddi adroddiad sy'n nodi'r hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd a6.

5.31 Darparodd llythyr y Gweinidog Newid Hinsawdd at Benaethiaid Cynllunio ar 11 Hydref ddiweddariad polisi ar ddiwygiadau i'w cynnwys yn y fersiwn nesaf o Bolisi Cynllunio Cymru (fersiwn 12). Roedd hyn yn cynnwys cyhoeddi diweddariad o bennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru, gyda'r polisi'n dod i rym ar unwaith. Crynhoir y prif newidiadau isod ynghyd â'r gofynion ar ACLlau gan gynnwys cydweithio strategol.

5.32 Seilwaith Gwyrdd a Glas: pwyslais cryfach ar fabwysiadu dull rhagweithiol o gyflawni seilwaith gwyrdd a glas sy'n mynd i'r afael ag ystyriaethau trawsffiniol ac yn gwella rhwydwaith cyffredinol seilwaith gwyrdd a glas. Cydweithio ar nodi asedau allweddol seilwaith gwyrdd a glas, yn enwedig y rhai sy'n gyfagos neu'n rhychwantu ffiniau, er mwyn llywio'r asesiadau seilwaith gwyrdd a glas priodol yn y ffordd orau. Yn unol â pharagraff 6.2.12 Polisi Cynllunio Cymru, bu trafodaethau parhaus ar gyflwyno datganiadau seilwaith gwyrdd a glas cymesur ar gyfer pob cais cynllunio, yn ogystal â chyfeirio at safonau diwydiant perthnasol.

5.33 Budd net o ran Bioamrywiaeth a'r Dull Fesul Cam: darperir rhagor o eglurder ynghylch sicrhau budd net o ran bioamrywiaeth trwy gymhwyso'r dull fesul cam, gan gynnwys cydnabod mesurau digolledu oddi ar y safle fel y dewis olaf, ynghyd â'r angen i ystyried gwelliant a rheolaeth hirdymor ar bob cam. Mae'r defnydd o'r datganiad seilwaith gwyrdd fel modd o amlygu'r dull fesul cam yn cael ei wneud yn glir. Mae diagram symlach o'r dull polisi wedi cael ei lunio (a gaiff ei fireinio ymhellach yn y fersiwn gyfunol o PCC12). Cydnabyddir pwysigrwydd cydweithio strategol i nodi a chipio cyfleoedd ar raddfa fwy i sicrhau budd net o ran bioamrywiaeth.

5.34 Gwarchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig: ymagwedd gryfach at warchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ynghyd â rhagor o eglurder am y sefyllfa ar gyfer rheoli safleoedd ac eithriadau ar gyfer mân ddatblygiadau sy'n angenrheidiol i gynnal 'tirwedd fyw.' Ystyrir bod datblygiadau eraill yn annerbyniol fel mater o egwyddor. Mewn achosion eithriadol, gall dull cynlluniedig fod yn briodol lle gellir sicrhau mesurau diogelu angenrheidiol trwy gynllun datblygu.

5.35 Coed a Choetiroedd: cyfatebiaeth agosach i'r dull fesul cam, ynghyd â hybu'r broses o blannu coed newydd yn rhan o ddatblygiad sy'n seiliedig ar sicrhau'r goeden iawn yn y lle iawn.

5.36 Rheoli Maethynnau – Mae'r rhanbarth yn gartref i nifer o safleoedd dynodedig cenedlaethol a rhyngwladol, ac yn elwa ohonynt. Mae ansawdd yr amgylchedd a'r dirwedd naturiol yn haeddu cael ei warchod oherwydd ei harddwch cynhenid a'i werth o ran gwneud y rhanbarth yn lle atyniadol i fyw, i weithio ac i astudio ynddo. Yn hyn o beth, mae ei afonydd, ac yn enwedig y rhai sydd wedi'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, yn cynnal ystod eang o gynefinoedd a rhywogaethau, ac er bod goblygiadau yn ymwneud

â maethynnau mewn afonydd wedi dod yn amlycach, rhoddwyd rhagor o sylw i'r mater yn sgil cyhoeddi Canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar lefelau Ffosffad Afonol mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

5.37 Mewn ymateb i ganllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru, ac yn adlewyrchiad o'u heffaith ar gynnydd cynlluniau datblygu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio, yn ogystal â'r goblygiadau cymunedol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach, mae'r rhanbarth wedi arwain y gwaith o ddatblygu dulliau gweithredu rhagweithiol a blaengar, sydd oll â'r nod o feithrin dealltwriaeth bellach o'r materion hyn, ynghyd â chyfres o ymyriadau, polisïau a dulliau i fynd i'r afael â'r mater.  Er bod nifer o'r ymyriadau hyn wedi bod ar lefel awdurdod lleol, yn arbennig Cynghorau Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro ar y cyd â Cheredigion, maent yn aml wedi'u paratoi er budd cyfunol neu, yn achos Cyfrifiannell Maethynnau Sir Gaerfyrddin a Chanllawiau Lliniaru Sir Gaerfyrddin, wedi'u haddasu a'u datblygu ar sail dalgylch ar gyfer isranbarth ehangach.

5.38 Nid yw'r problemau sy'n gysylltiedig â ffosffadau yn parchu ffiniau gweinyddol, ac mae maint dalgylch yr effeithir arno yn golygu bod angen gwaith trawsffiniol – mae sefydlu'r Byrddau Rheoli Maethynnau cyntaf yng Nghymru mewn perthynas ag Afonydd Tywi, Teifi a Chleddau yn enghraifft o'r dull hwn. Mae'r rhain yn seiliedig ar yr egwyddor o gydweithio rhwng Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion a phartneriaid eraill, ac maent yn canolbwyntio ar baratoi Cynlluniau Rheoli Maethynnau.

5.39 Er nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r materion a godwyd o ran Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol, nodwedd nodedig yn y rhanbarth yw Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin ac Aberoedd. Mae cydweithio parhaus wedi digwydd dros y blynyddoedd rhwng Cynghorau Sir Caerfyrddin ac Abertawe (ynghyd ag asiantaethau partner megis Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru) mewn perthynas â chydbwyso'r angen i ddarparu datblygiadau â buddiannau cadwraeth natur – gan gynnwys trwy ddull amlasiantaethol y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

**Cydweithio Rhanbarthol – Astudiaeth Masnachu Credydau Maethynnau: Dichonoldeb a Phecyn Cymorth**

5.40 Yn rhan o ymateb integredig sy'n canolbwyntio ar atebion i faterion maethynnau, ac yn arbennig lefelau Ffosffad Afonol mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig gwarchodedig, roedd dichonoldeb a photensial ar gyfer sefydlu system masnachu credydau maethynnau yn amodol ar gomisiwn rhanbarthol penodol. Roedd hwn yn ceisio archwilio'r potensial ar gyfer marchnad masnachu credydau maethynnau a allai, o bosibl, gymell tirfeddianwyr i roi mesurau ar waith wedi'u cynllunio i liniaru lefelau ffosffad. Roedd hwn yn ceisio archwilio'r modd y gallai tirfeddianwyr, trwy fasnachu credydau maethynnau, gynhyrchu credydau lleihau maethynnau y gellid eu prynu wedyn i hwyluso'r broses o greu datblygiadau sy'n niwtral o ran maethynnau mewn dalgylchoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n methu.

5.41 Comisiynwyd yr astudiaeth gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar y cyd â phartneriaid eraill y rhaglen Cyflymu ac Adfywio Economaidd trwy Arloesedd (EARTh), ac ar eu rhan, (sef Cynghorau Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe) ac fe'i hariannwyd trwy Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd WEFO. Roedd yr astudiaeth yn ceisio cyflawni'r canlynol:

- asesu dichonoldeb System Masnachu Credydau Maethynnau i gyflenwi mesurau lliniaru maethynnau yn rhanbarth De-orllewin Cymru;
- datblygu pecyn cymorth sy'n nodi'r arferion gorau wrth ddylunio, llywodraethu a gweithredu System Masnachu Credydau Maethynnau yn y maes; a
- nodi'r camau nesaf sy'n ofynnol i roi System Masnachu Credydau Maethynnau ar waith yn y Rhanbarth.

5.42 Nodwyd y byddai System Masnachu Credydau Maethynnau yn ddichonadwy, yn fras, yn unol â'r fframwaith ar gyfer marchnadoedd amgylcheddol uniondeb uchel a ddatblygwyd gan fenter Financing Nature Recovery UK. Bydd hyn, ynghyd â'r ymyriadau eraill a nodwyd yn ystod y gwaith partneriaeth isranbarthol trwy'r Byrddau Rheoli Maethynnau, a'r gwaith a wneir gan Gynghorau Sir Caerfyrddin a Sir Benfro, yn rhan o'r ymateb ar y cyd i'r materion yn y dalgylchoedd yr effeithir arnynt.

## Perygl Llifogydd

5.43 Mae'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yn aros yn eiddgar am i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r TAN 15 newydd, sydd ar y gweill; fodd bynnag, yn y cyfamser maent yn cydnabod statws cynllunio perthnasol Map Llifogydd Cymru wrth lunio Cynlluniau.

**Cydweithio Rhanbarthol – Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd Cam 1 – De-orllewin Cymru**

5.44 Comisiynwyd Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd Cam 1 ar ran yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn Ne-orllewin Cymru.

5.45 Mae'r Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn i lywio CDLlau newydd unigol y Cynghorau, a'i fwriad oedd llywio'r gwaith o lunio polisïau a gwneud penderfyniadau ynghylch tir i'w glustnodi yn y priod gynlluniau. Roedd yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd hefyd yn rhan o'r ymateb i ofynion y Gweinidog yn dilyn yr oedi cyn cyhoeddi TAN 15 a'r ailymgynghori dilynol.

5.46 Cynhaliwyd yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gynlluniau datblygu, Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol (TAN 15) a llythyrau cysylltiedig gan Brif Swyddogion Cynllunio Llywodraeth Cymru, ac ystyriaethau Llywodraeth Cymru o ran Newid yn yr Hinsawdd yn Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd.

**Astudiaeth Hyfywedd Ranbarthol**

5.47 Mae'r Astudiaeth Hyfywedd Ranbarthol yn cwmpasu rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru (Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor

Castell-nedd Port Talbot, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Powys a Dinas a Sir Abertawe). Comisiynodd y rhanbarth yr ymgynghorwyr *Burrows-Hutchinson Ltd* i gynhyrchu:

a) Model Hyfywedd Rhanbarthol ac Asesiad Hyfywedd Lefel Uchel i ddarparu trosolwg o hyfywedd ar y lefel ranbarthol; a llywio'r broses o lunio'r cynllun, gan gynnwys:
   - cynllunio seilwaith;
   - dewis strategol a dewis safleoedd eraill;
   - tai fforddiadwy; a
   - pholisïau cynllunio eraill sydd â goblygiadau o ran costau'r datblygiad.

   a

b) Darparu Teclyn Profi Hyfywedd ar Safleoedd Penodol; (Model Hyfywedd Datblygu – mae un ar gyfer preswyl ac un ar gyfer masnachol) i gynorthwyo i ddethol safleoedd a dyrannu polisïau sy'n cyd-fynd â'r safleoedd mewn CDLlau a'r Cynllun Datblygu Strategol, a fydd:

   • yn darparu teclyn profi hyfywedd safle i ganiatáu i swyddogion ystyried hyfywedd ar safleoedd penodol;

   • yn hysbysu addasrwydd Safleoedd i'w cynnwys yn y Cynllun (yn seiliedig ar yr opsiynau a'r allbynnau cychwynnol o'r broses ranbarthol o ddewis safleoedd strategol a phrosesau eraill);

   • mewn fformat y gellir ei addasu gan Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol i lywio profion Safleoedd Ymgeisio ac yn

   • cael ei ddefnyddio wrth asesu ceisiadau unigol.

## 6. Llywodraethu

6.1 Mae'r Datganiad Tir Cyffredin hwn wedi'i baratoi gan Grŵp Cynllunio De-orllewin Cymru, sy'n dwyn ynghyd uwch-swyddogion cynllunio ac uwch-reolwyr ledled pob un o'r chwe awdurdod cynllunio lleol.

6.2 Mae'r Grŵp yn cwrdd yn rheolaidd ac mae'n gyfrifol am baratoi'r Papur Sefyllfa ochr yn ochr â darnau eraill o waith cydweithredol, gan gynnwys paratoi tystiolaeth newydd a datblygu dull cynllunio ar y cyd mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r gwasanaeth gan gynnwys bwydo i mewn i'r ystyriaethau ffurfiannol mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Strategol. Bydd y Grŵp hwn yn sicrhau bod y Datganiad yn gyson ag arferion cynllunio lleol ac yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ôl yr angen i adlewyrchu unrhyw newidiadau ar lefel awdurdod cyfansoddol neu ar raddfa ranbarthol.

6.3 Bydd y gwaith o oruchwylio a bod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol, a chasglu tystiolaeth ranbarthol lle bo hynny'n berthnasol, yn rhan o gylch gwaith y Cyd-bwyllgor Corfforedig, ac er y cyfeirir atynt, byddent yn faterion i'w cymeradwyo wedi hynny trwy ddarpariaethau llywodraethu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

6.4 Lle bo'n briodol, mae lle i adrodd i Is-bwyllgor Cynllunio Strategol y Cyd-bwyllgor Corfforedig ynghylch cydweithio parhaus ac arfaethedig yn y rhanbarth. Byddai ystyriaethau o'r fath yn ddarostyngedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor a'r cyfeiriad a roddwyd gan y Pwyllgor a/neu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ei hun, ond mae fframwaith ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas â chynllunio strategol a chydweithio rhanbarthol bellach wedi'i hen sefydlu yn Ne-orllewin Cymru.

## 7. Amlinelliad o'r egwyddorion cytunedig a'r Camau Nesaf

- Bydd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol, fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLlau newydd, yn cydweithio i adolygu'r sylfaen dystiolaeth a llunio dull strategol o ran anghenion tai a darpariaeth tir cyflogaeth ar draws y rhanbarth.
- Bydd pob Awdurdod Cynllunio Lleol, yn rhan o'r gwaith o baratoi eu CDLlau newydd, yn cynllunio ar gyfer anghenion a nodwyd o ran tir ar gyfer tai a chyflogaeth, gan ystyried polisïau cynllunio cenedlaethol, daearyddiaeth y farchnad dai, targedau twf economaidd awdurdodau lleol unigol a chytundebau rhwng awdurdodau unigol, yn ôl yr angen. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu wrth i'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol ddechrau.
- Trwy'r CDLlau newydd, byddwn yn ceisio sicrhau bod y cwantwm tai a nodwyd yn Cymru'r Dyfodol yn cael ei gyflawni ledled y Rhanbarth.
- Bydd anghenion o ran tir yn ystyried y gyfatebiaeth i gynigion sy'n ymwneud â thwf tai, cytundebau economaidd ac unrhyw gytundebau trawsffiniol yn y dyfodol rhwng awdurdodau unigol, yn ôl yr angen. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu wrth i'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol ddechrau.
- Bydd y broses o ddarparu tir ar gyfer tai a chyflogaeth yn cael ei fonitro, a bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ymdrechu i sicrhau cyflenwad addas o dir yn unol â Cymru'r Dyfodol, lle bo hynny'n briodol.
- Byddwn yn rhannu tystiolaeth leol fel y bo'n briodol ac yn cryfhau ein sylfaen dystiolaeth gyfunol yn ôl y gofyn.
- Parhau i gydweithio ac ystyried cyfleoedd pellach i gydweithio ar faterion sy'n ymwneud â'r argyfwng hinsawdd a datgarboneiddio.
- Bydd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn parhau i weithio'n unigol ac ar y cyd mewn ymateb i faterion yn ymwneud â maethynnau mewn afonydd ac amgylcheddau dŵr gwarchodedig, gan gynnwys trwy

fod yn aelodau o Fyrddau Rheoli Maethynnau sefydledig Afonydd Cleddau, Tywi a Theifi, lle bo hynny’n briodol.

- Ystyried y cyfleoedd i gydweithio ar faterion sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys nodi dulliau polisi a rennir a sylfaen dystiolaeth i lywio Cynlluniau Datblygu Lleol newydd, lle bo hynny’n briodol.
- Bydd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn parhau i adolygu'r sylfaen dystiolaeth berthnasol ar y cyd ac yn llunio dull strategol o reoli’r amgylchedd hanesyddol a naturiol, lle bo hynny’n briodol.
- Sicrhau bod y gwaith o baratoi ein CDLlau newydd a gwaith dilynol ar y Cynllun Datblygu Strategol yn cael ei lywio’n briodol gan dystiolaeth o'r perygl o lifogydd sy’n adlewyrchu darpariaethau polisïau cynllunio cenedlaethol.
- Sicrhau bod cynhyrchu CDLlau newydd a'r Cynllun Datblygu Strategol yn cael eu llywio gan ymarferoldeb a phatrymau symud y rhanbarth rhwng ardaloedd yr awdurdod lleol gan ddefnyddio'r data diweddaraf sy'n ymwneud â phatrymau cymudo, cysylltiadau trafnidiaeth a data mudo.

## Llofnodwyr Allweddol

| | |
|---|---|
| **Ar gyfer ac ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin** | Llofnod: |
| | Teitl: |
| | Dyddiad: |

| | |
|---|---|
| **Ar gyfer ac ar ran Cyngor Castell-nedd Port Talbot** | Llofnod: |
| | Teitl: |
| | Dyddiad: |

| | |
|---|---|
| **Ar gyfer ac ar ran Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro** | Llofnod: |
| | Teitl: |
| | Dyddiad: |

| | |
|---|---|
| **Ar gyfer ac ar ran Cyngor Sir Penfro** | Llofnod: |
| | Teitl: |
| | Dyddiad: |

| | |
|---|---|
| **Ar gyfer ac ar ran Cyngor Abertawe** | Llofnod: |
| | Teitl: |
| | Dyddiad: |